**Ymarferydd Diogelwch Cymunedol - Prosiect Ffenics (Dros dro ar gyfer absenoldeb mamolaeth.)**

**Rhif y Swydd: 502251**

**Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau**

**37 Awr yr wythnos**

**Gradd 7**

**CYFLOG: £ 22,627 – 24,491 y flwyddyn**

(A fyddech gystal â nodi fod pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd)

Mae'r swydd wag dros dro uchod (a fydd am gyfnod cychwynnol o 8 mis) wedi codi yn yr Adrannau Diogelwch a Phartneriaethau Cymunedol (DCaPh) ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio fel rhan o dîm bychan ac yn cynorthwyo wrth ddatblygu, cynllunio, cyd-lynu a chyflenwi Prosiect Ffenics ar hyd ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru ac mae'n rhaid i ddeilydd y swydd allu teithio'n annibynnol.

Dylai ymgeiswyr feddu ar Dystysgrif Lefel 2 Agored Cymru gyfredol ar gyfer Ymarfer Gwaith Ieuenctid neu gymhwyster cyfatebol a/neu brofiad perthnasol blaenorol o ddarparu gwaith ieuenctid.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gyflawni rôl brysur ac mae profiad o weithredu mewn lleoliadau amrywiol gan ddangos ymagwedd ddigynnwrf, hyderus a hyblyg wrth gyflawni yn rhagofyniad ar gyfer y swydd.

Disgwylir i Hyfforddwyr Ffenics weithio'n agos gydag asiantaethau partner i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl ifanc a gyfeiriwyd at y prosiect. Byddai profiad o weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol yn fanteisiol.

Oherwydd natur y rôl mae angen cyrchu gwybodaeth sensitif yn aml ac felly mae angen dealltwriaeth gynhwysfawr o bwysigrwydd trin a chadw data personol yn gywir.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gwblhau'r Ymarfer Gweithgaredd Tir - Cwrs Diogelwch i Oruchwylio wrth ddechrau'r rôl.

Gellir cyrchu gwybodaeth bellach ynghylch Prosiect Ffenics ar dudalennau mewnrwyd Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau o dan Ymgysylltu ag Ieuenctid a Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio 37 awr yr wythnos, ac mae Cynllun Gweithio Hyblyg ar waith.

Noder: Gofynnir yn garedig i ymgeiswyr y System Ddyletswydd Rhan Amser gymryd oriau eu hargaeledd i ystyriaeth wrth ymgeisio ar gyfer y swydd wag hon a thrafod unrhyw gwestiynau ynglŷn ag argaeledd â'ch Rheolwr Gorsaf System Ddyletswydd Rhan Amser.

I gael rhagor o wybodaeth am y rôl, cysylltwch â Damian Heward trwy law e-bost: d-heward@decymru-tan.gov.uk

Gwahoddir ceisiadau gan weithwyr presennol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru sydd â'r profiad a'r cymwysterau priodol i gwrdd â'r Manyleb Person.

Gellir lawrlwytho Ffurflen Gais, Disgrifiad Swydd a Manyleb Person trwy'r dudalen Swyddi Cyfredol ar safle Mewnrwyd y Gwasanaeth.

Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau, personel@decymru-tan-.gov.uk **Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: 12:00 canol dydd, 17eg Mehefin.**

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol a Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

disability confident COMMITTED